



Adra

Croeso i'ch Cartref
Llawlyfr Cwsmeriaid

0300 123 8084 | adra.co.uk | [@adrataicyf](https://twitter.com/adrataicyf)

Croeso i'ch cartref newydd.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau byw yn eich cartref newydd ac y byddwch yn falch o fod yn gwsmer i ni. Mae'r llyfryn byr yma yn rhoi gwybodaeth am ein gwasanaethau - cadwch hwn gyda'ch contract.



Rhestr Wirio wrth symud i mewn

Sefydlu Debyd Uniongyrchol i dalu eich rhent

Cofrestru ar gyfer treth cyngor

Sefydlu cyfrif e-bost

Trefnu yswiriant cynnwys y cartref

Cysylltu â chwmnïau ynni (nwy a thrydan) i wneud yn siŵr eich bod ar y tariff gorau

Gwneud trefniadau gyda'r Post Brenhinol i anfon post o'ch cyfeiriad blaenorol

Rhoi gwybod i'ch banc, darparwr ffôn symudol a chwmnïau ynni am eich cyfeiriad newydd

Gwneud cais am drwydded deledu

Gweld pryd mae eich casgliad gwastraff ac ail-gylchu, band treth a mwy ar wefan eich awdurdod lleol.

Darlleniadau mesurydd wrth symud i mewn:

Dŵr Trydan Nwy

Rydym yma i helpu

Cysylltwch â ni drwy ffonio **0300 123 8084**.

Mae ein Canolfan Gyswllt ar agor rhwng 8:00am a 5.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Os oes angen i chi roi gwybod am fater brys, cysylltwch â'n gwasanaeth 24 awr ar **0300 123 8084**.

Gallwch hefyd gysylltu â ni neu drefnu apwyntiad trwy'r sianelau yma:

 www.adra.co.uk

 [ymholiadau@adra.co.uk](mailto:yholiadau@adra.co.uk)

Eich Contract

Mae eich contract yn ddogfen gyfreithiol.

Mae'n nodi pa fath o denantiaeth sydd gennych ac yn nodi eich hawliau a'ch cyfrifoldebau fel deiliad contract (tenant). Dylech gadw eich contract mewn lle diogel a gwneud yn siŵr eich bod yn ei ddeall. Os byddwch yn torri eich contract efallai y bydd gennym sail i gymryd meddiant o'ch cartref.

Gadewch i ni wybod

Rhowch wybod i ni os oes unrhyw newidiadau i'ch amgylchiadau, er enghraifft:

- newid rhif ffôn
- marwolaeth aelod o'r cartref
- unrhyw un sy'n symud i mewn neu allan o'ch cartref
- babi newydd



Gallwch gysylltu â ni i ddiweddarau eich gwybodaeth

Newidiadau i'ch tenantiaeth -
www.adra.co.uk/tenantiaeth

Byw yn Eich Cartref

Unwaith y byddwch wedi llofnodi eich contract a derbyn y goriadau, disgwyliwn i chi symud i mewn. Byddwn yn cynnal archwiliad bob 6 a 18 mis ac archwiliad am ddiffygion ar ôl 12 mis

Os ydych i ffwrdd o'ch cartref am 28 diwrnod neu fwy, bydd angen i chi roi gwybod i ni yn ysgrifenedig.

Rhaid i chi feddiannu'r cartref fel eich unig neu brif gartref yn ystod cyfnod y contract.

Cymerwch gamau i sicrhau bod eich cartref yn ddiogel.

Nid oes gennych hawl i ysmygu yn eich cartref.

Cynlluniau Fforddiadwy

Mae sawl cynllun ar gael ac mae amodau penodol i bob cynllun.



Ewch draw i'n gwefan i ddarganfod mwy am amodau'r cynllun rydych chi'n rhan ohono.

Tai Fforddiadwy -

Tai Teg - www.adra.co.uk/taifforddiadwy

Bod yn Gymdogol

Mae gan bawb yr hawl i fwynhau eu cartref mewn heddwch. Gallwch fod yn gyfrifol am ymddygiad pawb sy'n byw ac yn ymweld â'ch cartref.



Am fwy o wybodaeth am sut allwn eich helpu os oes ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eich ardal, ewch i'n gwefan:

Ymddygiad gwrth-gymdeithasol -

www.adra.co.uk/ymddygiadgwrthgymdeithasol

Mae gwybodaeth am gymorth sydd ar gael i chi hefyd ar ein gwefan:

Cymorth i chi - www.adra.co.uk/cymorth-i-chi



Dod a'ch tenantiaeth i ben

Os byddwch yn penderfynu gadael, rhaid i chi ddod â'ch contract i ben drwy roi'r hysbysiad ysgrifenedig gofynnol i ni (dim llai na phedair wythnos) fel y nodir yn eich contract.



Mwy o wybodaeth:

Dod a'ch tenantiaeth i ben -

www.adra.co.uk/diwedddenantiaeth



Eich Rhent

Rhaid talu eich rhent, a thaliadau eraill fel taliadau gwasanaeth ymlaen llaw. Os fydd eich rhent yn cael ei gynyddu ym mis Ebrill, byddwch yn derbyn rhybudd o unrhyw newidiadau.

Dulliau Talu

Byddwch yn talu eich rhent drwy Ddebyd Uniongyrchol neu ddull tebyg. Bydd trefniadau'n cael eu gwneud ar ddechrau eich contract.



Mae mwy o wybodaeth am ffyrdd o dalu eich rhent ar ein gwefan:

Talu rhent - www.adra.co.uk/rhent

Taliadau Gwasanaeth

Bydd rhai cwsmeriaid yn wynebu tâl ar wahân a elwir yn Dâl Gwasanaeth, yn ogystal â thaliadau rhent. Mae hyn yn cynnwys costau darparu gwasanaethau ychwanegol fel:

- TCC (CCTV)
- Lifftau
- Cynnal a chadw tir
- Glanhau ardaloedd cymunedol



Mae mwy o wybodaeth ar ein gwefan:

Tâl Gwasanaeth - www.adra.co.uk/talguasanaeth

Cael trafferth talu eich rhent?

Gadewch i ni wybod cyn gynted â phosibl. Rydym yma i'ch helpu. Gallwn siarad ar y ffôn, ymweld â chi yn eich cartref neu eich cyfarfod yn unrhyw un o'n swyddfeydd. Gall ôl-ddyled rhent a Thâl Gwasanaeth arwain at hawliad meddiant yn eich erbyn.

Gallwch hefyd gael cyngor annibynnol drwy gysylltu gyda:

- Shelter Cymru: **08000 495 495**
- Cyngor ar Bopeth: **0800 702 2020**
www.citizensadvice.org.uk/wales/about-us/contact-us/



Mae gwybodaeth ar ein gwefan ynglŷn â chymorth costau byw, ariannu a lleihau eich biliau ynni:

Cymorth i chi - www.adra.co.uk/cymorth

Blaendal

Ar ddechrau'r contract efallai y bydd gofyn i chi dalu blaendal sy'n cyfateb i fis o rent. Bydd y blaendal yn cael ei dalu wrth lofnodi'r contract. Rydym yn cadw eich blaendal yn ddiogel yn ystod cyfnod eich contract gyda chwmni - Y Gwasanaeth Diogelu Blaendal (DPS).

Archwiliad Symud i Mewn

Ar ddechrau eich contract cynhelir archwiliad symud i mewn.

Byddwn yn cwblhau adroddiad symud i mewn a thynnu lluniau fel cofnod o gyflwr y cartref ar ddechrau'r contract.

Bydd cyfle i chi ddarllen yr adroddiad a rhoi adborth cyn ei arwyddo.

Archwiliad Symud Allan

Byddwn hefyd yn cynnal archwiliad ar ddiwedd eich contract. Eich dyletswydd chi yw sicrhau fod y cartref yn dod yn ôl i ni yn yr un cyflwr ac rydych wedi ei dderbyn.

Mae'r rhesymau dros ddal blaendal yn ôl wedi eu nodi yn rhan 10 o'ch contract.

Costau Eraill

Cofiwch gyfrifo beth fydd eich costau ychwanegol, fel treth cyngor ac yswiriant cynnwys y cartref.

Yswiriant Cynnwys y Cartref

Mae nifer o denantiaid yn tybio ein bod ni fel landlord yn yswirio eich dodrefn, eiddo personol ac addurniadau yn awtomatig. Nid yw hyn yn wir, ni fydd yswiriant adeiladau'r landlord yn cynnwys eich eiddo.

Dim ond rhai cwsmeriaid sy'n sylweddoli hyn a hynny ar ôl i'r difrod gael ei wneud.

Mae'n bwysig eich bod yn trefnu yswiriant cynnwys y cartref eich hun, naill ai trwy wneud eich trefniadau eich hun neu drwy gymryd yswiriant cynnwys y cartref o dan ein cynllun yswiriant cynnwys y cartref ni. Gallwch dalu'r yswiriant pan fyddwch yn talu eich rhent bob mis.



Ewch i'n gwefan am ragor o wybodaeth:

Yswiriant Cynnwys y Cartref -
www.adra.co.uk/ywsiriant

Awdurdod Lleol

Cysylltwch â'ch awdurdod/Cyngor Lleol i roi gwybod iddynt eich bod wedi symud i mewn i'ch cartref a threfnu i dalu eich treth cyngor hefyd i drefnu biniau a bocsys ailgylchu i'ch cartref.

Chi sy'n gyfrifol am symud yr holl wastraff o'ch cartref a'i roi mewn bin sbwriel / bocsys ailgylchu yn barod i'w gasglu gan yr Awdurdod Lleol. Rhaid i chi hefyd ddychwelyd y bin sbwriel neu'r bin olwynion o fewn ffin eich cartref ar y diwrnod casglu sbwriel.



Dewch o hyd i'ch Cyngor Lleol yma:

Dod o hyd i'ch cyngor lleol -
GOV.UK (www.gov.uk/find-local-council)

Trwsio, Cynnal a Chadw

Rhoi gwybod am waith trwsio

Fel eich landlord, ni sy'n gyfrifol am gadw'ch eiddo mewn cyflwr da. Rydym hefyd yn cynnal a chadw'r rhannau o'ch cartref a rennir, fel coridorau a lifftiau. Telir am yr holl waith hwn gan rent a thaliadau gwasanaeth; rhaid i chi roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl am unrhyw fai, diffyg, difrod neu adfeiliad y credwch yn rhesymol mai cyfrifoldeb y landlord yw hynny.



Mwy o wybodaeth am ein dyletswyddau i chi:

Gwaith Trwsio- www.adra.co.uk/fy-nghartref/cynnal-a-chadw/gwaith-trwsio/

Mwy o wybodaeth am y gwaith atgyweirio y mae'n rhaid ei dalu amdano

www.adra.co.uk/fy-nghartref/cynnal-a-chadw/report-a-problem-welsh/





Mwy o wybodaeth am eich dyletswyddau chi:

Fideos i'ch helpu drwsio man bethau yn eich cartref

www.adra.co.uk/fy-nghartref/cynnal-a-chadw/fideos-ich-helpu/

Gwelliannau, Addasiadau neu Ychwanegiadau i'ch cartref

Rhaid i chi gael caniatâd ysgrifenedig gennym ni cyn gwneud unrhyw newidiadau i'ch cartref. I wneud cais e-bostiwch ni: gwelliannau.improvement@adra.co.uk



Mwy o wybodaeth:

Newidiadau a gwaith adeiladu -
www.adra.co.uk/gwaithadeiladu

Gwneud cais am addasiadau yn eich cartref:

Gwneud cais am addasiadau -
www.adra.co.uk/addasiadau



Mynediad i'ch cartref

Byddwn yn cysylltu â chi ymlaen llaw os bydd angen i ni ymweld â'ch cartref. Mae ein staff, ein contractwyr a'n hasiantau i gyd yn gweithio i god ymddygiad ac yn cario cerdyn adnabod. Byddant yn dangos eu cerdyn adnabod i chi. Dylech bob amser ofyn am ei weld. Os ydych dal yn ansicr, ffoniwch ni i wirio pwy ydynt.

Os bydd argyfwng lle mae angen i'r landlord fynd i mewn i'ch cartref heb hysbysiad, rhaid i chi roi mynediad ar unwaith i'r landlord.

Bydd angen mynediad i'ch cartref arnom pan fyddwn yn cynnal ymweliadau â darpar ddeiliad contract (tenantiaid) yn ystod pedair wythnos olaf eich contract.

Diogelwch Nwy

Ein cyfrifoldeb cyfreithiol ni yw gwasanaethu eich system nwy yn flynyddol. Rhaid i chi ddarparu mynediad er mwyn i hyn ddigwydd. Os na fyddwn yn gallu dod i mewn i'ch cartref o fewn 21 diwrnod o'r apwyntiad neu eich bod yn gwrthod gadael ni i mewn, byddwn yn cymryd camau cyfreithiol.

Os oes gennych gyflenwad nwy allanol, yn dilyn sawl ymgais aflwyddiannus i gael mynediad bydd eich cyflenwad nwy yn cael ei gapio.

Os ydych chi'n arogli nwy

Gwnewch yn siŵr eich bod yn:

- agor pob drws a phob ffenest
- diffodd y cyflenwad nwy wrth y falf rheoli mesurydd (os ydych yn gwybod ble mae) a pheidiwch â chynnau unrhyw offer trydanol na chynnau fflam noeth
- ffoniwch Rhif Argyfwng Nwy' Y Grid Cenedlaethol ar **0800 111 999**



Mwy o wybodaeth:

Diogelwch yn eich cartref -
www.adra.co.uk/fy-nghartref/edrych-ar-ol-fy-nghartref/diogelwch-yn-eich-cartref/



Gwella eich Gwasanaeth

Dweud eich Dweud

Mae eich barn yn bwysig i ni. Rydym eisiau i chi gymryd rhan i'n helpu ni wella ein gwasanaethau.



Mwy o wybodaeth:

Eich Llais -
www.adra.co.uk/eichllais

Cwynion, canmoliaeth ac adborth

Rydym yn delio gyda chwynion mewn modd cadarnhaol, gan groesawu cwynion fel cyfleoedd i wella'r ffordd yr ydym yn gweithio.



Os oes gennych gŵyn, adborth neu ganmoliaeth i'w rannu gyda ni, cysylltwch â ni.

Cysylltu â ni - www.adra.co.uk/cysylltu-a-ni/

Eich trin yn deg

Rydym wedi ymrwmo i gydraddoldeb ac i sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i bawb, yn briodol ac yn deg.



Mae mwy o wybodaeth ar y safonau hyn ar gael ar ein gwefan:

Preifatrwydd - www.adra.co.uk/preifatrwydd/

Gobeithiwn yn fawr y byddwch yn mwynhau eich cartref newydd.